

# Adroddiad blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru – 2022-23

Mawrth 2023

## 1. Cyflwyniad

1. Sefydlwyd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn 2018 fel corff annibynnol, anstatudol a chynghorol i Weinidogion Cymru. Ei brif ddiben yw gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch anghenion seilwaith hirdymor Cymru dros gyfnod o bump i wyth deg mlynedd.
2. Ar 7 Rhagfyr 2022, cynhaliodd y Pwyllgor ei sesiwn graffu flynyddol gyntaf gyda Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Roedd Dr David Clubb, Cadeirydd y Comisiwn, a Dr Jenifer Baxter, Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn, yn bresennol yn y sesiwn.



## 2. Blwyddyn gyntaf y Cadeirydd yn ei swydd

- 3.** Penododd Llywodraeth Cymru Dr David Clubb fel Cadeirydd y Comisiwn ym mis Medi 2021. Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi gyda Dr Clubb yn yr un mis. Ar y pryd, mynegodd y Pwyllgor bryder mai penodiad uniongyrchol oedd hwn yn hytrach na phroses recriwtio agored. Ymhellach, cafodd y penodiad ei wneud cyn y gwrandawriad cyn penodi.
- 4.** Pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor, disgrifiodd y Cadeirydd ei flwyddyn gyntaf fel 'blwyddyn o ddau hanner'. Dywedodd ei fod wedi treulio'r flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar ddeall y briff a datblygu dull strategol o weithredu'r Comisiwn, ochr yn ochr â sefydlu'r broses ar gyfer recriwtio Comisiynwyr newydd.
- 5.** Ar ôl iddynt gael eu penodi ddiwedd mis Mehefin, treuliodd y Comisiynwyr newydd amser gwirioneddol ddiddorol yn dod i adnabod ei gilydd, yn deall sut yr oeddent yn mynd i weithio'n fewnol, yn sefydlu llwyfannau cyfathrebu amrywiol, yn deall sut y gallent weithio yn y ffordd fwyaf tryloyw posibl, ac yn sefydlu systemau rheoli prosiect i sicrhau bod y prosiectau y maent yn eu rhedeg yn effeithiol a'u bod yn cyflawni'r mathau o allbynnau y maent yn awyddus i'w cyflawni.

### Cylch gorchwyl y Comisiwn

- 6.** Cafodd llythyr cylch gorchwyl y Comisiwn ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2022 ac mae'n cwmpasu tymor y Llywodraeth hon.
- 7.** Dywedodd y Cadeirydd mai un o'i gyflawniadau cynnar oedd sicrhau cytundeb i newid cyfnod cylch gorchwyl y Comisiwn o 30 i 80 mlynedd. Dywedodd fod hyn yn angenrheidiol oherwydd 'nid yw 30 mlynedd yn dechrau cyffwrdd mewn gwirionedd, yn gyntaf, oes seilwaith, ac yn ail, effaith newid hinsawdd'. Pan ofynnwyd iddo am y sail resymegol dros y llinell amser hon, dywedodd ei fod wedi bod yn 'gyson, o leiaf, gyda rhif crwn y gellid ei ddeall yn hawdd a'i alinio ag oes seilweithiau nodweddiadol fel yr oeddwn i'n eu deall'. Dywedodd y Cadeirydd, er bod y newid hwn yn golygu ei fod yn ystyried materion yn y dyfodol pell, fe fydd hyn 'yn caniatáu penderfyniadau gwell nawr, a ddylai gael effeithiau da ar gyfer yr 20, 30, 40 mlynedd [nesaf]'.
- 8.** Ychwanegodd fod newidiadau pellach wedi cael eu gwneud i gylch gorchwyl y Comisiwn i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr argyfwng hinsawdd, a'r argyfwng natur. Dywedodd ei fod hefyd yn awyddus iawn i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ffurfio rhan o'i gylch gorchwyl, oherwydd, yn aml iawn, mae penderfyniadau

seilwaith, yn hanesyddol, wedi cael eu gwneud heb ystyried y rhai tlotaf yn y gymdeithas. Yn ôl [Adroddiad Blynyddol](#) y Comisiwn, cytunwyd ar y newidiadau hyn i'r cylch gorchwyl "yn dilyn trafodaethau rhwng y Cadeirydd a'r Dirprwy Weinidog [Newid Hinsawdd]".

## Penodi Comisiynwyr newydd

**9.** Roedd y Cadeirydd wedi gofyn am gytundeb gan Lywodraeth Cymru i leihau nifer yr aelodau o'r Comisiwn o 12 i 8, gan esbonio ei fod yn 'teimlo bod 12 yn ormod, yn enwedig os ydych chi'n cwrdd yn rhithwir'. Eglurodd ei fod hefyd wedi gofyn i swydd dirprwy Gadeirydd newydd gael ei sefydlu ac i'r Comisiwn gael mwy o amser i wneud ei waith.

**10.** Yn ôl y Cadeirydd, roedd y Comisiwn wedi recriwtio aelodau o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys 'pobl a fyddai'n cael eu hystyried efallai fel cyfranogwyr seilwaith traddodiadol, yn ogystal â phobl sy'n dod o safbwynt ychydig yn fwy traddodiadol'. Roedd wedi mynd ati'n fwriadol i chwilio am gomisiynwyr a fyddai'n 'gallu symud allan o'u parth cysur eu hunain i herio eu hunain, ac a oedd yn gyfforddus yn cael eu herio'.

**11.** Esboniodd y Cadeirydd, yn wahanol i iteriad blaenorol y Comisiwn, nad yw'r Comisiynwyr presennol yn arbenigwyr sectoraidd, gan ddweud, 'rydym yn fwy cyffredinolaidd, ac roedd hynny'n fwriadol'. Eglurodd mai 'dim ond tri maes ffocws penodol sydd gennym ni dros y tair blynedd nesaf. Rydyn ni eisiau gallu ystyried pethau'n llawer ehangach na hynny ar sail ad hoc. Felly, rydym yn chwilio am bobl sydd â setiau cyffredinol o sgiliau, gan gynnwys y gallu i feddwl am gymhlethdod a cheisio deall cymhlethdod er mwyn i ni fod yn llawer mwy ymatebol i beth bynnag a ddaw o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, ymgynghoriadau'r Senedd, neu gyfleoedd eraill i wneud sylwadau'.

## Datgan buddiannau

---

**12.** Yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, mynegodd y Pwyllgor bryderon am wrthdaro buddiannau posibl ynghylch rolau eraill Dr Clubb. Ymrwymodd i fynd i'r afael â'r rhain yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, gan ddweud, 'os oes unrhyw beth sy'n newid o ran fy ngwaith, byddaf yn mynd syth nôl i'r Llywodraeth ac yn egluro'r hyn rwy'n mynd i wneud'.

**13.** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch gwrthdaro buddiannau posibl, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn hyderus, yn ei achos ef, fod gwrthdaro buddiannau posibl yn cael eu rheoli'n effeithiol. Ychwanegodd fod gwrthdaro eraill yn cael eu rheoli'n briodol gan y Comisiynwyr eraill. Mae [cofrestr o fuddiannau](#) yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 3. Gweithrediad y Comisiwn

### Amserlen y cyfarfodydd

---

**14.** Eglurodd y Cadeirydd fod y Comisiwn yn cyfarfod wyneb yn wyneb bob mis a bod y Comisiynwyr wedi bod yn defnyddio ap negeseuon ffynhonnell agored sy'n eu galluogi i gyfathrebu'n aml iawn y tu allan i'r cyfarfod. Esboniodd fod y dechnoleg wedi arwain at lawer mwy o lif gwybodaeth, yn ei farn ef, yn digwydd o fewn y Comisiwn nag a fyddai'n cael ei wneud mewn math traddodiadol o sefydliad.

### Tryloywder

---

**15.** Dywedodd y Cadeirydd ei fod am sicrhau fod y Comisiwn yn gwella 'ein cyfathrebu a'n proffil cyhoeddus fel bod pobl yn ein hadnabod a'i bod yn ffyddiog ein bod ni'n gallu cynrychioli eu buddiannau'. Mae gwefan y Comisiwn yn rhestru pob cyfarfod â sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn awyddus i'r cyhoedd allu cael gafael ar y wybodaeth hon. Ychwanegodd, 'os ydyn nhw'n teimlo bod gormod o ddylanwad gan rai sefydliadau, neu os ydyn nhw'n teimlo nad yw eu sector nhw wedi cael ei gynrychioli, yna mae croeso mawr iddyn nhw ddod atom ac ymgysylltu â ni'.

### Ymgysylltu

---

**16.** Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ceisio gwella'r ffordd y mae'r Comisiwn yn ymgysylltu â phobl ifanc. Roedd y Comisiwn wedi contractio sefydliad i'w helpu i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn benodol â phobl ifanc. Ychwanegodd fod y Comisiwn yn gobeithio ymgysylltu ag Aelodau o'r Senedd leuenctid. Dywedodd fod y Comisiwn yn ymdrechu i wneud cymaint ag y gall i ymgysylltu â phobl na fyddai efallai'n gysylltiedig â seilwaith fel arfer. Dywedodd, 'erbyn diwedd y drydedd flwyddyn, hoffai weld y Comisiwn yn dangos arfer da iawn yn y maes hwnnw, a gobeithio yn helpu sefydliadau eraill i'w ddeall hefyd'.

### Cyllideb y Comisiwn

---

**17.** Yn 2022-23, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllideb benodol i'r Comisiwn. Ar gyfer y flwyddyn gyntaf, dyrannwyd cyllideb o £400,000. Mae [Adroddiad Blynyddol](#) y Comisiwn yn nodi sut mae hon wedi'i dyrannu ar draws ei weithgareddau. Mae £225,000 wedi'i neilltuo ar gyfer prosiect ynni adnewyddadwy'r Comisiwn.

**18.** Dywedodd y Cadeirydd fod dyrannu'r gyllideb yn 'gynnydd sylweddol' o gymharu â'r Comisiwn blaenorol. Dywedodd fod y gyllideb yn ddigonol iddynt gyflawni eu cylch gorchwyl,

---

ac ychwanegodd fod yn rhaid i'r Comisiwn nawr ddangos gwerth am arian. Byddai'n gwneud hyn drwy ddangos ei bod yn arbed mwy i gymdeithas Cymru yn ei chyfanrwydd na'r gyllideb ar gyfer y Comisiwn bob blwyddyn at y dyfodol.

## **Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU**

---

**19.** Yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, soniodd Dr Clubb wrth y Pwyllgor am yr angen i ddeall sut y gall ddylanwadu ar fuddsoddiad seilwaith y DU yn dod i Gymru, sut y gellir adeiladu pontydd, yn drosiadol, rhwng Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU a Chymru, a chydag adrannau Llywodraeth y DU. Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU yn un o Asiantaethau Gweithredol y Trysorlys. Mae ei gylch gorchwyl yn ymestyn i seilwaith economaidd heb ei ddatganoli.

**20.** Dywedodd y Cadeirydd fod y Comisiwn wedi datblygu cydberthynas dda gyda'i gyfar ar lefel y DU dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae aelod o Gomisiwn Seilwaith y DU yn aelod o'r grŵp cynghori prosiectau ar gyfer pob un o brosiectau Comisiwn Cymru. Roedd yn gobeithio y byddai'r cydberthynas rhwng y ddau Gomisiwn yn tyfu ac yn gwella ymhellach.

## **Annibyniaeth y Comisiwn**

---

**21.** Mae Cadeirydd y Comisiwn wedi'i benodi'n uniongyrchol gan y Dirprwy Weinidog a rhoddir cymorth ysgrifenyddol gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae llythyr cylch gorchwyl y Comisiwn yn cynnig cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru i bennu cwmpas gwaith y Comisiwn ar ynni adnewyddadwy.

**22.** Pan ofynnwyd i'r Cadeirydd am y mater hwn, dywedodd cyn belled ag y bo modd, wrth dderbyn cyllid a chefnogaeth gan y Llywodraeth, 'rydym yn gwbl annibynnol ac nid ydym wedi cael unrhyw bwysau i newid ein barn na'r neges yr ydym yn ei rhoi i'r Llywodraeth'. Eglurodd bod y Comisiwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ond 'mae'n un rhan bwysig o'r mosaig o wybodaeth yr ydym yn ei chymryd o fyd gwybodaeth'.

**23.** Ychwanegodd fod nifer o grwpiau cynghori yng Nghymru yn cael eu hariannu neu eu cefnogi gan y Llywodraeth yn yr un modd, a bod gan bob un o'r rhain yr un math o densiwn a phrofiad. Dywedodd 'nid yw'n rhywbeth sydd ond yn gysylltiedig yn uniongyrchol â ni'. Ailadroddodd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw bwysau i ddod i farn benodol, gan ddweud 'mewn gwirionedd, mae swyddogion y Llywodraeth hyd yn hyn wedi pwysleisio ein bod yn annibynnol a bod penderfyniadau i ni eu gwneud a dweud pethau, ac mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud yn union yr un peth'.

## 4. Y rhaglen waith

**24.** Mae Adroddiad Blynyddol y Comisiwn yn rhoi manylion ei raglen waith arfaethedig dros y tair blynedd nesaf. At hynny, mae'n nodi gwaith presennol y bydd yn ymgysylltu ag ef megis taith Bil Cydsynio Seilwaith a rhoi argymhellion panel ynghylch adolygiad ffyrdd ar waith. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cadeirydd fod y Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi erthygl barn ar y broses sy'n sail i'r adolygiad ffyrdd.

**25.** Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Comisiwn yn ceisio rhoi adborth neu sylwadau ar bob polisi sy'n ymwneud â seilwaith yng Nghymru. Dywedodd 'os gallwn wneud hynny ar ben pob prosiect yr ydym yn eu rheoli hefyd, rwy'n credu y byddwn yn cyflawni ein briff'.

**26.** Roedd y Cadeirydd yn bendant y byddai gwaith y Comisiwn yn ychwanegu gwerth at drafodaethau polisi Llywodraeth Cymru 'os yw'n cymryd ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr argyfyngau hinsawdd a natur, a'i dyletswydd economaidd-gymdeithasol o ddifrif'. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi dangos, yn enwedig yn fwy diweddar, yn ei farn ef, ei bod o ddifrif am rai o'r pethau hyn. Dywedodd 'nad wyf bob amser wedi bod mor ganmoliaethus, mewn gwirionedd, am yr hyn sydd wedi digwydd dros gyfnod datganoli, ond rwy'n credu bod pethau'n digwydd nawr sy'n cael eu hystyried yn radical o fewn ystyr yn y DU.

**27.** Mewn ymateb i gwestiwn am sut mae'r Comisiwn yn penderfynu ar ba feysydd y bydd yn canolbwyntio, dywedodd y Cadeirydd y bydd yn ceisio gwneud cymaint â phosibl y tu allan i'w dri phrif faes prosiect. At hynny, dywedodd 'y byddwn yn codi'r hyn y gallwn pan allwn, byddwn yn mynegi barn ar unrhyw beth y mae gennym y cyfle i wneud hynny o fewn ein hadnoddau'. Daeth i'r casgliad mai'r unig gyfyngiad oedd adnoddau cyfyngedig y Comisiwn, ond er gwaethaf hyn, roedd am i'r Comisiwn fod mor weithgar â phosibl mewn cymaint o feysydd â phosibl.

**28.** Dywedodd Dr Baxter fod y Comisiwn yn ystyried dull systemau o ran seilwaith. Er enghraifft, byddai hyn yn golygu edrych ar y berthynas rhwng datblygu ffyrdd newydd a bioamrywiaeth. Eglurodd, 'er y gallwn gael barn benodol iawn ar deithio llesol...fel Comisiwn, rydym yn tueddu i edrych arno'n fwy fel dull systemau, sydd ychydig yn wahanol i'r ffordd y mae llawer o'n polisi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd'.

**29.** Mae Adroddiad Blynyddol y Comisiwn yn nodi'r prosiectau y mae'n bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod pob blwyddyn o'i gylch gorchwyl tair blynedd.

## Ynni adnewyddadwy 2022-23

---

**30.** Mae prif ffocws gwaith presennol y Comisiwn ar ynni adnewyddadwy. Mae wedi nodi tri phrosiect ymchwil i ystyried a yw seilwaith a chymdeithas Cymru yn barod ar gyfer y newidiadau sydd eu hangen i gyrraedd Sero Net:

- Prosiect ar wneud y mwyaf o gyd-fuddiannau a rheoli unrhyw densiynau sy'n deillio o ddod yn Gymru adnewyddadwy;
- ymgysylltu cymunedol canolbarth Cymru; a
- strategaeth seilwaith sero net.

**31.** O ran ymgysylltu â'r gymuned, dywedodd y Cadeirydd fod gwaith ymgysylltu wedi'i gomisiynu gyda chymunedau ym Mhowys a Cheredigion. Mae'n cynnwys 'trafod gyda phobl ynghylch yr hyn maen nhw ei eisiau o'u tirweddau o ran ynni'.

## Llifogydd 2023-24

---

**32.** Ym mlwyddyn dau, mae'r Comisiwn yn bwriadu canolbwyntio ar lifogydd ac mae'n dweud bod proses gynllunio ar gyfer y gwaith hwn ar y gweill. Mae Cytundeb Cydweithio 2021 yn cynnwys ymrwymiad i dasg y Comisiwn o asesu "sut y gellir lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd mewn cartrefi, busnesau a seilwaith ledled y wlad erbyn 2050."

**33.** Mae adolygiad annibynnol o adroddiadau adran 19 llywodraeth leol ac adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar lifogydd eithafol eisoes yn mynd rhagddynt. Bydd y Comisiwn yn defnyddio hwn ac adroddiadau eraill i fireinio ei waith.

**34.** Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r prosiect ar lifogydd yn dechrau ym mis Ebrill 2023. Roedd y gwaith yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, ac roedd yn disgwyl gweld tendrau ar gyfer y gwaith hwnnw'n mynd allan yn y gwanwyn, y flwyddyn nesaf. Byddai'n brosiect blwyddyn o hyd a fyddai'n arwain at adroddiad ac argymhellion i Lywodraeth Cymru.

## Gwydnwch hinsawdd a risg dirfodol 2024-25

---

**35.** Mae blwyddyn tri o raglen waith arfaethedig y Comisiwn yn canolbwyntio ar brosiect sydd â'r nod o "gynnal sgwrs genedlaethol ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd". Eglurodd y Cadeirydd:

*"We know that we cannot protect every community from the worst impacts of climate change, particularly coastal communities, so I'm very keen that we*

*step where others are unable or unwilling to go, and that is some of these discussions about what happens to communities that are at risk and cannot be defended".*

**36.** Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r gwaith hwn yn anodd, ond gallai'r Comisiwn ychwanegu gwerth trwy ddechrau sgysiau ar faterion o'r fath.

**37.** Daeth ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar strategaeth bum mlynedd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar newid hinsawdd i ben ym mis Rhagfyr 2022.

## Ein barn ni

Roeddem yn falch o gynnal ein sesiwn graffu flynyddol gyntaf yn ystod tymor y Senedd hon. Dyma hefyd oedd y sesiwn graffu gyntaf gyda Dr Clubb ers iddo ddechrau yn ei swydd.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon, mae'r Cadeirydd wedi cyflawni nifer o ymrwymadau a wnaeth pan ddechreuodd yn y swydd. Dywedodd wrth y Pwyllgor yn ystod ei wrandawriad cyn penodi y byddai o leiaf 50 y cant o'r Comisiynwyr a benodir yn fenywod. Mae hyn wedi'i gyflawni. Mae hefyd wedi sicrhau newid i gylch gorchwyl a chyfansoddiad y Comisiwn. Mae'r Cadeirydd wedi llwyddo yn ei flwyddyn gyntaf i roi ei stamp ar y Comisiwn a dylanwadu ar ei gyfeiriad.

Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith gwaith y Comisiwn o dan y Cadeirydd newydd. Roedd y Cadeirydd ei hun yn cydnabod hynny. Byddwn yn dychwelyd at hyn o ddifrif pan fydd Cadeirydd a chynrychiolwyr y Comisiwn yn ymddangos ger ein bron ar gyfer ein sesiwn graffu flynyddol nesaf. Bydd gennym ddiddordeb arbennig mewn gwneud gwaith dilynol o ran y cwestiwn ynghylch sut y bydd y Comisiwn yn dangos gwerth am arian.

Bydd gennym ddiddordeb hefyd mewn asesu cynnydd o ran cynyddu ymgysylltiad â phobl ifanc a'r gwaith parhaus gyda Chomisiwn Seilwaith y DU.

O ran rhaglen waith y Comisiwn, byddwn yn cadw golwg ar allbynnau o'r gwahanol ddarnau o waith drwy gydol yr ail flwyddyn hon o gyfnod y Cadeirydd.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi dweud y bydd yn gweithio ar y Bil Caniatâd Seilwaith wrth iddo gael ei ddatblygu ac wrth iddo fynd drwy'r Senedd. Rydym yn disgwyl y bydd y Pwyllgor hwn yn rhan o'r broses graffu ar gyfer y Bil hwnnw, a byddem yn croesawu mewnbyn gan y Comisiwn ar yr adeg briodol. Yn yr un modd, bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb i nodi barn y Comisiwn ar yr adroddiad adolygu ffyrdd pan gaiff ei gyhoeddi.



Er ein bod yn deall bod ei adnoddau'n gyfyngedig, byddem hefyd yn estyn gwahoddiad i'r Comisiwn gyfrannu at waith pwyllgorau'r Senedd, lle y bo'n briodol.